





Arwyddion o ddiwedd y byd Mathew 24: 1-35; Marc 13: 1-31; Luc 21: 5-38




Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Mathew 24: 1-35; Marc 13: 1-31; Luc 21: 5-38	 An illustration showing Jesus in a white robe with a red sash, standing and talking to three disciples. One disciple is pointing towards a city in the distance. The background shows a landscape with a city and hills. Text at the bottom of the image reads: 'Matthew 24:1-35, Mark 13:1-31, Luke 21:5-38', 'JESUS TALKS ABOUT FUTURE EVENTS', 'Free Bible Illustrations', and 'www.freebibleimages.org'.	
1 Wrth i Iesu adael y deml dyma'i ddisgyblion yn dod ato ac yn tynnu ei sylw at yr adeiladau. "Edrych ar y cerrig anferth yma, athro! Mae'r adeiladau yma'n fendigedig!"	 An illustration showing Jesus in a white robe with a red sash, pointing towards a large stone wall. Two disciples are looking at the wall with interest. The background shows a cityscape.	
2 "Ydych chi'n gweld y rhain i gyd?" meddai Iesu. "Credwch chi fi, bydd y cwbl yn cael ei chwalu, a fydd dim un garreg wedi ei gadael yn ei lle."	 An illustration showing Jesus in a white robe with a red sash, talking to two disciples. One disciple is pointing towards the temple. The background shows a cityscape.	
3 Yn nes ymlaen, pan oedd Iesu'n eistedd ar ochr Mynydd yr Olewydd, daeth ei ddisgyblion ato a gofyn, "Pryd mae beth roeddet ti'n sôn amdano yn mynd i ddigwydd? Fydd unrhyw rybudd i ddangos i ni dy fod di'n dod, a bod diwedd y byd wedi cyrraedd?"	 An illustration showing Jesus in a white robe with a red sash, sitting on a hillside. Two disciples are sitting next to him, looking at him. The background shows a cityscape.	

-
- 4 Atebodd Iesu: "Gwylwch fod neb yn eich twyllo chi. Bydd llawer yn dod yn hawlio fy awdurdod i, ac yn dweud, 'Fi ydy'r Meseia,' a byddan nhw'n llwyddo i dwyllo llawer o bobl."



-
- 5 "Bydd rhyfeloedd a byddwch yn clywed sôn am ryfeloedd. Ond peidiwch cynhyrfu — mae pethau felly'n siŵr o ddigwydd, ond fydd y diwedd yn dal heb ddod."



-
- 6 "Bydd gwledydd a llywodraethau yn rhyfela yn erbyn ei gilydd. Bydd newyn mewn gwahanol leoedd, a daeargrynfeydd. Dim ond y dechrau ydy hyn i gyd!"



-
- 7 Cewch eich arestio a'ch cam-drin a'ch lladd. Bydd pobl ym mhob gwlad yn eich casáu chi am eich bod yn ddilynwyr i mi. Bydd llawer yn troi cefn arna i bryd hynny, ac yn bradychu a casáu ei gilydd. Bydd mwy a mwy o ddrygioni, bydd cariad y rhan fwyaf yn oeri, ond bydd yr un sy'n sefyll yn gadarn i'r diwedd un yn cael ei achub.



-
- 8 Cewch eich dwyn o flaen yr awdurdodau, a'ch curo yn y synagogau. Cewch eich cyhuddo o fod yn ddilynwyr i mi o flaen llywodraethwyr a brenhinoedd, a byddwch yn tystiolaethu iddyn nhw amdana i.



-
- 9 Peidiwch poeni ymlaen llaw beth i'w ddweud wrth amddiffyn eich hunain. Bydda i'n rhoi'r geiriau iawn i chi. Fydd gan y rhai sy'n eich gwrthwynebu chi ddim ateb! Dwedwch beth fydd yn dod i chi ar y pryd, achos dim chi fydd yn siarad, ond yr Ysbryd Glân.



-
- 10 Ond byddwch chi'n hollol saff; wrth sefyll yn gadarn y cewch chi fywyd.



-
- 11 "Byddwch chi'n gwybod fod Jerwsalem ar fin cael ei dinistrio pan welwch chi fyddinoedd yn ei hamgylchynu. Bryd hynny dylai pawb sydd yn Jwdea ddianc i'r mynyddoedd. Dylai pawb ddianc o'r ddinas, a ddylai neb yng nghefn gwlad fynd yno i chwilio am loches.



-
- 12 Mor ofnadwy fydd hi ar wragedd beichiog a mamau sy'n magu plant bach bryd hynny!



-
- 13 Bydd trybini mawr yn y tir, a bydd digofaint Duw ar y genedl.



-
- 14 Byddan nhw'n cael eu lladd gan y cleddyf neu'n cael eu symud i wledydd eraill yn garcharorion. (Yn 70 O.C. chwalwyd Jerwsalem gan y Rhufeiniaid. Gorfodwyd yr Iddewon i adael y wlad).




-
- 15 Bydd pobl o genhedloedd eraill yn concro Jerwsalem a'i sathru dan draed hyd nes i amser y cenedloedd hynny ddod i ben.



-
- 16 "Bydd pethau rhyfedd yn digwydd yn yr awyr — arwyddion yn yr haul, y lleuad a'r sêr.



-
- 17 Ar y ddaear bydd gwledydd mewn cynnwrf a ddim yn gwybod beth i'w wneud am fod y môr yn corddi a thonnau anferth yn codi. Bydd pobl yn llewygu mewn dychryn wrth boeni am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd i'r byd, achos bydd hyd yn oed y sêr a'r planedau yn ansefydlog



-
- 18 "Bryd hynny bydd pawb yn fy ngweld i, Mab y Dyn, yn dod mewn cymylau gyda grym ac ysblander mawr." Pan fydd hyn i gyd yn dechrau digwydd, safwch ar eich traed a daliwch eich pennau'n uchel. Mae rhyddid ar ei ffordd!"




-
- 19 “Dysgwch wers gan y goeden ffigys: Pan mae'r brigau'n dechrau blaguro a dail yn dechrau tyfu arni, gwyddoch fod yr haf yn agos. Felly'r un fath, pan fyddwch yn gweld y pethau yma'n digwydd, byddwch yn gwybod fod Duw ar fin dod i deyrnasu. Bydd yr awyr a'r ddaear yn diflannu, ond mae beth dw i'n ei ddweud yn aros am byth.”



-
- 20 “Gwylwch eich hunain! Peidiwch gwastraffu'ch bywydau yn gwneud dim byd ond joio, meddwi a phoeni am bethau materol, neu bydd y diwrnod hwnnw yn eich dal chi'n annisgwyl — bydd fel cael eich dal mewn trap. A bydd yn digwydd i bawb drwy'r byd i gyd. Cadwch eich llygaid yn agored!



-
- 21 Gweddïwch y byddwch chi'n gallu osgoi'r pethau ofnadwy sy'n mynd i ddiwydd, ac y cewch chi sefyll o flaen Mab y Dyn.”



-
- 22 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
